

Fforwm Mynediad Lleol Sir Gaerfyrddin

Adroddiad Blynyddol 2015

Mawrth 2016

Rhagair i Adroddiad Blynyddol 2015

Mae bwlch sylweddol wedi bod rhwng llunio adroddiad blynyddol diwethaf Fforwm Mynediad Lleol Sir Gaerfyrddin (y Fforwm) a'r adroddiad hwn.

Yn ystod yr amser hwn, mae'r Fforwm wedi bod yn brysur iawn yn gweithio ochr yn ochr â Chyngor Sir Caerfyrddin er mwyn sicrhau bod cyfran sylweddol o'r rhwydwaith hawliau tramwy yn y sir yn parhau ar agor ac yn gwella flwyddyn ar ôl blwyddyn.

Carwn ddiolch i Karen Burch, y Cadeirydd blaenorol, am ei gwaith caled dros y 3 blynedd diwethaf ac edrychaf ymlaen at barhau i weithio gyda Karen, sydd bellach yn Is-gadeirydd y Fforwm.

Yn ystod fy mlwyddyn gyntaf fel Cadeirydd y Fforwm, mae nifer o feysydd lle, yn fy marn i, mae'r Fforwm wedi gwneud cynnydd sylweddol ac wedi cael mewnbwn o ran dyfodol rheoli hawliau tramwy yn Sir Gaerfyrddin / Cymru. Mae'r rhain wedi cynnwys:

- Gweithio'n agos gydag Adran yr Amgylchedd CSC mewn perthynas ag ymgynghoriad ynghylch cyflwyno Gorchmynion Rheoli Cŵn o dan ddeddfwriaeth newydd Gorchmynion Gwarchod Mannau Cyhoeddus.
- Gwella'r ymwybyddiaeth o fodolaeth y Fforwm drwy sicrhau mwy o gyfraniad at ymgynghoriadau mewn perthynas â mynediad yn y Sir gan weithio'n agos gyda Chynrychiolydd Cyfoeth Naturiol Cymru y Fforwm a chysylltu â'r holl Gynghorau Cymuned yn y Sir i'w hatgoffa nhw o fodolaeth y fforwm.
- Presenoldeb y Cynghorydd Deryk Cundy - Cadeirydd Pwyllgor Craffu - Cymunedau CSC yng nghyfarfod diwethaf y flwyddyn sydd wedi helpu o ran sicrhau bod barn a sylwadau'r fforwm yn cael eu clywed ar lefel uwch yng Nghyngor Sir Caerfyrddin.
- Darparu ymateb manwl ynghylch Papur Gwyrdd Llywodraeth Cymru ar Wella'r Cyfleoedd i gael Mynediad i'r Awyr Agored ar gyfer Gweithgareddau Hamdden Gyfrifol a fydd yn dylanwadu ar bolisi ynghylch rheoli hawliau tramwy ar gyfer tymor nesaf y Cynulliad.
- Trafodaethau manwl ynghylch prosiectau Fferm Wynt Brechfa a sut y gallent effeithio ar rwydwaith hawliau tramwy yn y Sir.
- Recriwtio pedwar aelod newydd sef:
 - Bachog Chunisingh
 - Richard Leggett
 - Jane Evans
 - Geoffrey Williams (Cadeirydd Blaenorol Fforwm Mynediad Lleol Sir Gaerfyrddin)

Ar adeg o gwtogi cyllidebau'r awdurdodau lleol, mae'r Fforwm wedi sylweddoli bod gostyngiad sylweddol yn nifer y staff awdurdod lleol ar lawr gwlad ac yn dymuno diolch yn ffurfiol i'r tîm bach o staff sydd ar ôl am wneud ei orau i ofalu am yr hawliau tramwy yn y Sir.

Fforwm Mynediad Lleol Sir Gaerfyrddin
Adroddiad Blynyddol 2015

Y gobaith yw y bydd canlyniadau'r ymgynghoriad ynghylch Papur Gwyrdd Llywodraeth Cymru ar Wella'r Cyfleoedd i gael Mynediad i'r Awyr Agored ar gyfer Gweithgareddau Hamdden Cyfrifol yn cael eu defnyddio i ddylanwadu ar bolisi yn y dyfodol ac i wrth-droi'r duedd o ran toriadau parhaus yn y gyllideb ar gyfer adnodd sy'n arbennig o bwysig i'r gyrchfan twristiaeth a'r Sir wledig hon.

Carwn ddiolch i Jonathan Tudor fel ysgrifennydd am ei amser ac am ei gyngor i'r fforwm dros y blynyddoedd diwethaf.

Yn ogystal carwn ddiolch i holl aelodau'r fforwm am eu hamser a'u harbenigedd i'r Fforwm.

Mark Hadley
Cadeirydd
Fforwm Mynediad Lleol Sir Gaerfyrddin

Rhagarweiniad

Sefydlwyd Fforwm Mynediad Lleol Sir Gaerfyrddin ym mis Medi 2002. Mae'n gyfrifol am Sir Gaerfyrddin, ac eithrio'r ardal sy'n rhan o Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog; Fforwm Mynediad Lleol Ardal y Gorllewin sy'n gyfrifol am yr ardal honno. Roedd gan yr Awdurdod Lleol ddyletswydd statudol i sefydlu'r Fforwm yn ôl gofynion Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000.

Swyddogaeth statudol y Fforwm yw cynghori'r awdurdod, Cyfoeth Naturiol Cymru ac eraill am wella mynediad y cyhoedd i dir yn yr ardal at ddibenion hamddena yn yr awyr agored a mwynhau'r ardal, gan barchu anghenion rheoli tir a harddwch naturiol y wlad.

Bellach mae cylch gwaith y Fforwm wedi cael ei ehangu i roi cyngor nid yn unig i'r awdurdod penodi (Cyngor Sir Gaerfyrddin yn ein hachos ni), yr Awdurdod Priffyrdd a chyrrff eraill fel y nodir gan y rheoliadau, ond hefyd i roi cyngor ar Gynlluniau Gwella Hawliau Tramwy Cyhoeddus, Wardeiniaeth, llunio is-ddeddfau ac eithrio a chyfyngu hir dymor ar fynediad.

Dylid ceisio barn y Fforwm ynghylch unrhyw reoliadau newydd o dan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000, rheoli hawliau mynediad newydd, y blaenoriaethau strategol ar gyfer hawliau tramwy cyhoeddus a rhwydweithiau beicio a phob math arall o hamddena yn yr awyr agored.

Mae aelodau'r Fforwm wedi ymrwymo i fynychu cyfarfodydd o grwpiau allanol os bydd hynny'n briodol ac fe'u hanogir i wneud popeth o fewn eu gallu i ymwneud â'r cyhoedd.

Mae holl gyfarfodydd y Fforwm yn agored i'r cyhoedd. Mae cofnodion cyfarfodydd y Fforwm a manylion eraill ynghylch y Fforwm ar gael ar wefan Cyngor Sir Gaerfyrddin:

<http://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/preswylwyr/hamdden-a-gweithgareddau/hawliau-tramwy-cyhoeddus/fforwm-mynediad-lleol/#.V2kLhdL2b1I>

Mae rheoliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau penodi baratoi adroddiad blynyddol, cyn gynted â phosib ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol, ynghylch pob Fforwm y maent yn gyfrifol amdano. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys cyfarwyddyd Cyfoeth Naturiol Cymru ynghylch llunio adroddiadau Blynyddol Fforymau Mynediad Lleol a chynnwys yr adroddiadau hynny.

Bydd amryw bwrpas i'r adroddiad blynyddol, sef cyflwyno:

- a) Crynodeb o waith y flwyddyn flaenorol. Bydd cofnodion cyfarfodydd unigol a dogfennau eraill a luniwyd yn rhoi mwy o fanylion ond bydd yr adroddiad blynyddol yn crynhoi gwaith y Fforwm.

- b) Cynllun gwaith am y flwyddyn sydd i ddod. Hwn fydd y cynllun y cytunodd y Fforwm a'r awdurdod penodi arno, yn unol â rheoliad 16(2)(b). Derbynnir y gall blaenoriaethau sy'n newid a phwysau gwaith arall olygu na ellir cydymffurfio â'r cynllun yn llawn.
- c) Dogfen 'gyhoeddusrwydd'. Yn ôl statud mae'n rhaid i'r adroddiad blynyddol fod ar gael i'r cyhoedd ei ddarllen ac mae'n rhaid iddo fod ar gael i'r cyhoedd ei brynu.

Adolygu'r Flwyddyn

Adroddiad ar y Swyddogaeth Statudol

Mae'r adran hon o'r adroddiad blynyddol yn canolbwyntio ar sut y cyflawnodd y Fforwm ei swyddogaeth statudol yn ystod y flwyddyn sy'n gorffen ar 31^{ain} Rhagfyr 2015. Yn ôl y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000, ei swyddogaeth yw cynghori:

- a) Yr awdurdod penodi.
- b) Unrhyw gorff sy'n cyflawni swyddogaethau dan Ran I mewn perthynas â thir yn yr ardal honno.
- c) Os yw'r awdurdod penodi yn Awdurdod Parc Cenedlaethol, yr awdurdod priffyrdd lleol ynghylch unrhyw ddarn o'r tir hwnnw, a
- d) Chyrrff eraill y gellir eu pennu.

Ynghylch gwella mynediad cyhoeddus i dir yn yr ardal honno at ddibenion hamddena yn yr awyr agored a mwynhau'r ardal.

Bydd y cyrff a enwir yn (a) i (d) (uchod) yn rhoi sylw, wrth iddynt gyflawni'u swyddogaethau, i unrhyw gyngor perthnasol a roddir iddynt gan Fforwm Mynediad Lleol dan yr is-adran hon neu unrhyw ddarpariaeth arall dan y Ddeddf hon.

Cynhaliodd y Fforwm 4 cyfarfod yn y cyfnod rhwng 1^{af} Ionawr 2015 a 31^{ain} Rhagfyr 2015. Gellir crynhoi'r cyfarfodydd fel a ganlyn:

- a) 26^{ain} Chwefror 2015 – CAVS, 18 Heol y Frenhines, Caerfyrddin
- b) 21^{ain} Mai 2015 – Canolfan Hamdden Caerfyrddin
- c) 27^{ain} Awst 2015 – Canolfan Hamdden Caerfyrddin
- d) 19^{eg} Tachwedd 2015 – Canolfan Hamdden Caerfyrddin

Materion a Ystyriwyd gan y Fforwm rhwng 1^{af} Ionawr - 31^{ain} Rhagfyr 2015

1.	Pwnc Trafod:	GLASTIR
	Dyddiad(au) Trafod:	26 ^{ain} Chwefror 2015, 21 ^{ain} Mai 2015, 27 ^{ain} Awst 2015, 19 ^{eg} Tachwedd 2015
	Crynodeb:	Cyflwyniad gan Jane Tibbot o Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r cynllun newydd a chyfrifoldebau'r Fforwm ynghylch cymeradwyo ceisiadau am fynediad caniatool o dan y cynllun newydd. Yn y cyfarfod ar 19 ^{eg} Tachwedd 2015, trafodwyd

y cyntaf o'r ceisiadau hyn a chytunwyd ei fod yn dderbyniol.

2. Pwnc Trafod: **Ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd**
Dyddiad(au) Trafod: 26^{ain} Chwefror 2015

Crynodeb: Etholwyd Mark Hadley yn Gadeirydd a Karen Burch yn Is-gadeirydd.

3. Pwnc Trafod: **Gorchmynion Rheoli Cŵn**
Dyddiad(au) Trafod: 26^{ain} Chwefror 2015, 21^{ain} Mai 2015, 27^{ain} Awst 2015, 19^{eg} Tachwedd 2015

Crynodeb: Mae'r Fforwm wedi cynnal trafodaethau hir gyda Chyngor Sir Caerfyrddin a darparwyd tystiolaeth i CSC mewn perthynas â gweithredu'r gorchmynion rheoli cŵn yn y Sir.

4. Pwnc Trafod: **Diweddariad ynghylch Gwaith Cynnal a Chadw / Gwaith Grant**
Dyddiad(au) Trafod: 26^{ain} Chwefror 2015, 21^{ain} Mai 2015, 27^{ain} Awst 2015, 19^{eg} Tachwedd 2015

Crynodeb: Newyddion diweddaraf gan CSC ynghylch gwelliannau grant / gwaith i'r rhwydwaith hawliau tramwy.

5. Pwnc Trafod: **Gwefan Lleol-i CSC**
Dyddiad(au) Trafod: 26^{ain} Chwefror 2015, 27^{ain} Awst 2015

Crynodeb: Mae CSC wedi bod yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Fforwm ynghylch y broses o ychwanegu manylion am hawliau tramwy cyhoeddus at wefan Lleol-i y Cyngor.

6. Pwnc Trafod: **Teithio Llesol**
Dyddiad(au) Trafod: 26^{ain} Chwefror 2015, 21^{ain} Mai 2015, 27^{ain} Awst 2015, 19^{eg} Tachwedd 2015

Crynodeb: Mae'r Fforwm wedi derbyn nifer o e-byst dros y flwyddyn ynghylch teithio llesol. Gofynnwyd am gynnal cyfarfodydd gyda'r swyddogion perthnasol ond nid yw hyn wedi digwydd yn ystod y flwyddyn. Mynychodd David Stacey ymgynghoriad ac ymarfer hyfforddi a drefnwyd gan Sustrans ym mis Mai 2015.

7. Pwnc Trafod: **Trawsgydymffurfio**
Dyddiad(au) Trafod: 26^{ain} Chwefror 2015
- Crynodeb: Diweddariad i'r Fforwm ynghylch y ffaith y gallai'r gofyniad i gadw hawliau tramwy cyhoeddus yn agored ac yn ddirwystr gael ei gynnwys yn y Cynllun Taliad Sengl yn y dyfodol.
8. Pwnc Trafod: **Cilffordd sydd ar Agor i Unrhyw Draffig (BOAT) 58/14**
Dyddiad(au) Trafod: 26^{ain} Chwefror 2015, 21^{ain} Mai 2015, 27^{ain} Awst 2015
- Crynodeb: Mae'r llwybr hwn, sy'n rhannol yn Sir Gaerfyrddin ac yn rhannol yng Ngheredigion yn cael ei gyflwyno gerbron yr Arolygiaeth Gynllunio er mwyn ystyried ei statws yng Ngheredigion. Ar hyn o bryd, cilffordd ydyw yn Sir Gaerfyrddin a chilffordd gyfyngedig ydyw yng Ngheredigion. Mae'r Fforwm yn argymhell ei bod yn parhau yn gilffordd yn y ddwy sir.
9. Pwnc Trafod: **Aelodau Newydd / Recriwtio**
Dyddiad(au) Trafod: 21^{ain} Mai 2015, 27^{ain} Awst 2015, 19^{eg} Tachwedd 2015
- Crynodeb: Cytunwyd ar aelodaeth Becky Chunisingh ar 21^{ain} Mai 2015.
Cytunwyd ar aelodaeth Jane Evans ar 19^{eg} Tachwedd 2015.
Cytunwyd ar aelodaeth Geoffrey Williams ar 19^{eg} Tachwedd 2015.
Cytunwyd ar aelodaeth Richard Leggett ar 19^{eg} Tachwedd 2015.
10. Pwnc Trafod: **Cyswllt â Chynghorau Tref / Cymuned**
Dyddiad(au) Trafod: 21^{ain} Mai 2015, 27^{ain} Awst 2015
- Crynodeb: Cysylltwyd â phob un o'r 72 cyngor tref a chymuned i'w hatgoffa nhw am fodolaeth y Fforwm.
11. Pwnc Trafod: **Adroddiad Blynyddol**
Dyddiad(au) Trafod: 21^{ain} Mai 2015, 27^{ain} Awst 2015, 19^{eg} Tachwedd 2015
- Crynodeb: Mae'r gofyniad i lunio adroddiad blynyddol wedi cael ei drafod yn y cyfarfodydd hyn.

12. Pwnc Trafod: **Gwasanaethau Archifau**
Dyddiad(au) Trafod: 21^{ain} Mai 2015, 27^{ain} Awst 2015, 19^{eg}
Tachwedd 2015
- Crynodeb: Codwyd materion ynghylch cau Archifau Sir Gaerfyrddin yng Nghaerfyrddin a'r ffaith fod ymchwil ynghylch hawliau tramwy yn anodd yn sgil hyn.
13. Pwnc Trafod: **Cysylltiad y Fforwm â'r Cyngor**
Dyddiad(au) Trafod: 21^{ain} Mai 2015, 27^{ain} Awst 2015
- Crynodeb: Mae aelodau'r Fforwm wedi codi pryderon nad yw Aelodau'r Cyngor yn mynychu cyfarfodydd y Fforwm.
14. Pwnc Trafod: **Papur Gwyrdd Llywodraeth Cymru: Ymgynghoriad ynghylch Gwella Cyfleoedd i gael Mynediad i'r Awyr Agored ar gyfer Gweithgareddau Hamdden Cyfrifol**
Dyddiad(au) Trafod: 27^{ain} Awst 2015, 30^{ain} Medi 2015 (Cyfarfod Is-bwyllgor), 19^{eg} Tachwedd 2015
- Crynodeb: Gofynnwyd i aelodau'r Fforwm roi sylwadau ynghylch y Papur Gwyrdd a oedd yn edrych ar ddyfodol rheoli hawliau tramwy yng Nghymru.
15. Pwnc Trafod: **CNC / Llywodraeth Cymru: Datblygu Canllawiau ynghylch Hawliau Tramwy Cyhoeddus ar gyfer Awdurdodau Lleol**
Dyddiad(au) Trafod: 27^{ain} Awst 2015
- Crynodeb: Gofynnwyd i aelodau'r Fforwm am sylwadau ynghylch diweddarau'r cyngor gan Lywodraeth Cymru i'r Awdurdodau Lleol am hawliau tramwy cyhoeddus.
16. Pwnc Trafod: **Big Pathwatch**
Dyddiad(au) Trafod: 27^{ain} Awst 2015
- Crynodeb: Cafwyd cyflwyniad gan Geoffrey Williams o Gymdeithas y Cerddwyr Sir Gaerfyrddin ynghylch y prosiect cenedlaethol hwn i fapio'r holl hawliau tramwy cyhoeddus a'u statws ledled y wlad.
17. Pwnc Trafod: **Cynhadledd y Fforwm**
Dyddiad(au) Trafod: 27^{ain} Awst 2015, 19^{eg} Tachwedd 2015

Crynodeb: Trafodwyd Cynhadledd Genedlaethol y Fforwm yn y cyfarfodydd uchod.

18. Pwnc Trafod: **Gorchmynion Dargyfeirio Llwybr Cyhoeddus**
Dyddiad(au) Trafod: 27^{ain} Awst 2015

Crynodeb: Rhoddodd y Cadeirydd wybod i'r Fforwm fod yr holl orchmynion dargyfeirio yn cael eu cyflwyno i Gadeirydd y Fforwm. Cytunwyd yng nghyfarfod mis Awst y byddai'r holl orchmynion hyn yn cael eu hanfon ymlaen at yr holl aelodau y mae modd cysylltu â nhw drwy e-bost yn y dyfodol.

19. Pwnc Trafod: **Ymgynghoriad Targededig CNC ynghylch Cyfarwyddyd Drafft ar gyfer Adolygu'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy**

Dyddiad(au) Trafod: 19^{eg} Tachwedd, 2015

Crynodeb: Gofynnwyd i Fforymau Mynediad Lleol a sefydliadau perthnasol eraill roi sylwadau ynghylch yr awgrymiadau a gynigiwyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer adolygu'r Cynlluniau. Cyflwynwyd ymateb y Fforymau Mynediad Lleol ar 26^{ain} Tachwedd 2015.

20. Pwnc Trafod: **Ystyr Ymgynghoriadau**
Dyddiad(au) Trafod: 19^{eg} Tachwedd, 2015

Crynodeb: Yn dilyn pryderon a godwyd gan aelodau nad oedd ymgynghori priodol yn digwydd â'r Fforwm ynghylch gwahanol faterion, trafodwyd ystyr ymgynghoriad. Cytunwyd y byddai'n rhaid cynnal ymgynghoriad ar ryw adeg mewn unrhyw broses pan fyddai modd o hyd ddylanwadu ar ganlyniad unrhyw broses gwneud penderfyniadau.

21. Pwnc Trafod: **Fferm Wynt Fforest Brechfa**
Dyddiad(au) Trafod: 19^{eg} Tachwedd, 2015

Crynodeb: Roedd y Fforwm o'r farn nad oedd RWE N Power wedi ymgynghori'n briodol ag ef ynghylch ei Gynllun Rheoli Mynediad ar gyfer prosiect Fferm Wynt Fforest Brechfa a thrafodwyd hyn gan y Fforwm.

22. Pwnc Trafod: **Llwybr Beicio Dyffryn Tywi**
Dyddiad(au) Trafod: 19^{eg} Tachwedd, 2015
- Crynodeb: Trafodwyd Llwybr Beicio arfaethedig Dyffryn Tywi.
23. Pwnc Trafod: **Ffordd Cambria**
Dyddiad(au) Trafod: 19^{eg} Tachwedd, 2015
- Crynodeb: Rhoddodd Geoffrey Williams wybod i'r Fforwm fod Ffordd Cambria yn cael ei hail-lansio â chanllaw a gwefan newydd.
24. Pwnc Trafod: **Cilffordd Penstacan**
Dyddiad(au) Trafod: 19^{eg} Tachwedd, 2015
- Crynodeb: Trafododd y Fforwm gais gan berchennog tir am Orchymyn Rheoleiddio Traffig ar y llwybr hwn. Cytunwyd y byddai'r Grŵp Defnyddwyr Cilffyrdd yn delio â hyn.

Gweithgareddau Fforwm eraill / y Cadeirydd / yr Is-gadeirydd

Rhestr o'r gweithgareddau eraill a gyflawnodd y Cadeirydd / yr Is-gadeirydd / Aelodau eraill y Fforwm yn unol ag amcanion y Fforwm:

Dyddiad	Digwyddiad y Mynychwyd	Natur y Presenoldeb	Mynychwyd gan
30/03/15	Cyfarfod Grŵp Defnyddwyr Cilffyrdd	Cynrychiolwyr Grŵp Defnyddwyr Lleol / Aelodau'r Fforwm	Mark Hadley / Karen Burch
22/04/15	Prosiect Cyfeirio Treadlightlyly	Cynrychiolydd Treadlightlyly / Aelod o Grŵp Defnyddwyr Cilffyrdd / Aelod o'r Fforwm	Mark Hadley
23/09/15	Cyfarfod Grŵp Defnyddwyr Cilffyrdd	Cynrychiolwyr Grŵp Defnyddwyr Lleol / Aelodau'r Fforwm	Mark Hadley / Jane Evans
29/10/15	Llwybr Beicio Dyffryn Tywi	Aelod o'r cyhoedd / Aelod o'r Fforwm	David Stacey
27/11/15	Llwybr Beicio Ar Draws y Bannau	Aelod o'r cyhoedd / Aelod o'r Fforwm	Mark Hadley
09/12/15	Cyfarfod Grŵp Defnyddwyr Cilffyrdd	Cynrychiolwyr Grŵp Defnyddwyr Lleol - Aelodau'r Fforwm	Mark Hadley / Karen Burch / Jane Evans

Pwyllgorau'r Fforwm / Cyfarfodydd Eraill

Yn unol â rheoliad 13 o'r Fforymau Mynediad Lleol caniateir sefydlu pwyllgorau'r Fforwm. Yn 2015, sefydlodd y Fforwm y pwyllgorau canlynol / mynychodd y Fforwm y cyfarfodydd canlynol:

1. 16^{eg} Ebrill 2015 – Gwnaeth Mark Hadley, Caroline Evans a Jon Tudor gyfarfod â Michael Roberts (Swyddog Polisi a Strategaeth Gorfodi – Uned Gorfodi Amgylcheddol) ac Alan Evans (Cyfreithiwr Cynorthwyol CSC) er mwyn trafod gweithredu'r Gorchmynion Rheoli Cŵn yn y Sir.
2. 30^{ain} Medi 2015 – Gwnaeth Mark Hadley, Keith Morgan, Chris Rankin, Dai Stacey, Karen Burch, Jon Tudor a Geoffrey Williams (Sylwedydd y Fforwm) gyfarfod i drafod Papur Gwyrdd Llywodraeth Cymru: Gwella Cyfleoedd i gael Mynediad i'r Awyr Agored ar gyfer Gweithgareddau - Ymgynghoriad. Anfonwyd ymateb ffurfiol o'r Fforwm i Lywodraeth Cymru ar 1^{af} Hydref 2015.

Cyflwyniadau i'r Fforwm

Rhoddwyd y cyflwyniadau canlynol gerbron y Fforwm yn 2015:

1. 26^{ain} Chwefror 2015 - Cafwyd cyflwyniad ynghylch GLASTIR gan Jane Tibbott o Lywodraeth Cymru.
2. 21^{ain} Mai 2015 – Cafwyd cyflwyniad ynghylch Gorchmynion Rheoli Cŵn a'u rhoi ar waith yn Sir Gaerfyrddin gan Michael Roberts (Swyddog Polisi a Strategaeth Gorfodi – Uned Gorfodi Materion Amgylcheddol) ac Alan Evans (Cyfreithiwr Cynorthwyol CSC).
3. 27^{ain} Awst 2015 – Cafwyd cyflwyniad gan Geoffrey Williams o Gerddwyr Sir Gaerfyrddin ynghylch y Big Pathwatch.

Cynllun Gwaith 2016

Yn unol â Rheoliad 16(2)(b), mae'n ofynnol bod adroddiad blynyddol y Fforwm yn cynnwys rhaglen waith y cytunwyd arni gan y Fforwm a'r awdurdod penodi ac y bydd y Fforwm yn ei gweithredu yn ystod y deuddeng mis nesaf. Mae'r eitemau canlynol wedi'u cynnwys ar gyfer 2016:

1. Eitemau y disgwylir iddynt gael eu cyfeirio at y Fforwm gan gyrff eraill:

Awdurdod Lleol:

Rhagwelir y bydd yr eitemau canlynol yn cael eu trafod gyda CSC yn 2016:

- Teithio Llesol
- Prosiect Llwybr Beicio Dyffryn Tywi
- Adolygiad o'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy
- Cynllunio
- Proses Gorchymyn Dargyfeirio
- Rhaglen Waith Gwelliannau Grant
- Cyfrifoldebau Celfi Hawliau Tramwy Cyhoeddus

Llywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru

Rhagwelir y bydd yr eitemau canlynol yn cael eu cyfeirio i'r Fforwm gan Lywodraeth Cymru yn 2016:

- Proses Adolygu'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy
- Canlyniad y Papur Gwyrdd ynghylch Hawliau Tramwy

Disgwylia CNC a Llywodraeth Cymru gyfeirio'r materion canlynol at y Fforymau Mynediad Lleol yn ystod y flwyddyn. Canllaw yw hwn yn unig a gall newid i gyd-fynd â blaenoriaethau gwaith. **Ni ddylid ei ystyried yn rhestr derfynol.** Yn ogystal, bydd Awdurdodau Lleol ac Awdurdodau'r Parc Cenedlaethol yn cyfeirio materion at y Fforymau Mynediad Lleol. Hefyd dylai aelodau'r Fforymau Mynediad Lleol gael eu hannog i gyflwyno eitemau agenda.

- Ymgysylltu â sefydliadau eraill.
- Rhoi cyhoeddusrwydd i'r Fforwm a'i waith.
- Dylanwad - Monitro effaith cyngor ac argymhellion.
- Cynllun Gwaith ar gyfer y flwyddyn.
- Aelodaeth.
- Rôl a llywodraethu'r Fforwm.
- Edrych ar gymorth ar gyfer y Fforymau Mynediad Lleol.

2. Eitemau a gynigiwyd gan aelodau'r Fforwm ac eraill:

Mae aelodau'r Fforwm wedi gwneud cais am i'r eitemau canlynol gael eu trafod yn 2016:

- Teithio Llesol
- Llwybr Beicio Dyffryn Tywi
- Adolygiad o'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy
- Adroddiad Blynyddol
- Ymgylgoreion Statudol
- Cyngor Gwlad yr Haf v Herrick – Achos Cyfreithiol
- Proses Gorchymyn Dargyfeirio
- Cyfrifoldebau Celfi Hawliau Tramwy Cyhoeddus
- Diweddariadau cyson ynghylch y rhaglen gwelliannau grant a'r gwaith hawliau tramwy a wnaed gan yr Awdurdod.
- Recriwtio aelodau eraill o'r cyhoedd / grwpiau nad ydynt yn cael eu cynrychioli ar y Fforwm.

Cyfarfodydd Arfaethedig yn 2016

Mae'r rhaglen arfaethedig ar gyfer cyfarfodydd yn 2016 fel a ganlyn:

- 18^{fed} Chwefror 2016 – Canolfan Hamdden Caerfyrddin
- 12^{fed} Mai 2016 – Canolfan Hamdden Caerfyrddin
- 22^{ain} Medi 2016 – Canolfan Hamdden Caerfyrddin
- 8^{fed} Rhagfyr 2016 – Canolfan Hamdden Caerfyrddin

Atodiadau

Atodiad 1 – Manylion Awdurdod Penodi

Enw'r Awdurdod Penodi: Cyngor Sir Gaerfyrddin


Ardal sydd wedi'i chynnwys gan y Fforwm: Sir Gaerfyrddin gyfan
ac eithrio'r rhan honno sy'n rhan o
Barc Cenedlaethol Bannau
Brycheiniog.

Ysgrifennydd: Jonathan Tudor, Rheolwr Mynediad i
Gefn Gwlad, Uned Cefn Gwlad,
Hamdden a Mynediad, Cyngor Sir
Gaerfyrddin, Parc Coetir y Mynydd
Mawr, Heol Hirwaun Olau, Y Tymbl,
Sir Gaerfyrddin, SA14 6HU.

Rhif Ffôn: 01554 747511 (est. 3811)

E-bost: JPTudor@sirgar.gov.uk

Atodiad 2 – Map o Ardal y Fforwm



Allwedd

Ardal wedi'i hamgylchynu mewn coch = Sir Gaerfyrddin
Ardal wedi'i hamgylchynu mewn melyn = Rhan o'r Sir ym Mharc
Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (Heb ei chynnwys gan Fforwm
Mynediad Lleol Sir Gaerfyrddin)

Atodiad 3 - Manylion Aelodaeth / Recriwtio

Yn unol â Rheoliad 3 o Reoliadau Mynediad i Gefn Gwlad (Fforwm Mynediad Lleol) (Cymru) 2001, mae holl aelodau'r fforwm yn cael eu penodi am dair blynedd o ddyddiad y cyfarfod cyntaf o gylch tair blynedd y fforwm.

Yn y cyfarfod ar 26 Chwefror 2015, etholwyd Mark Hadley yn Gadeirydd ac etholwyd Karen Burch yn Is-gadeirydd. Mae'r tabl canlynol yn cynnwys manylion bras am yr holl aelodau hyd at 31^{ain} Rhagfyr 2015.

Enw	Dyddiad y penodwyd i'r Fforwm	Dyddiad y daeth Aelodaeth y Fforwm i ben	Cefndir / Diddordebau yn fras
Mark Hadley (Cadeirydd)	26 / 02/15	Amh.	Twristiaeth, Cerdded, Mynediad i Gerbydau Modur
Karen Burch (Is-gadeirydd)	26/02/15	Amh.	Mynediad i Geffylau, Twristiaeth
Jonathan Tudor (Ysgrifennydd)	26/02/15	Amh.	Rheolwr Mynediad i Gefn Gwlad, Cyngor Sir Caerfyrddin
Alan Warner (Aelod a Benodwyd gan y Cyngor)	26/02/15	Amh.	Rheolwr Gweithrediadau Cefn Gwlad, Cyngor Sir Caerfyrddin
Edward Percy	26/02/15	Amh.	Mynediad i Gerbydau Modur
Caroline Evans	26/02/15	Amh.	Amddiffyn Ecoleg / Tirwedd, Twristiaeth, Mynediad Agored
Eric Jones	26/02./15	Amh.	Ffermio
Jillie Gardiner	26/02/15	Amh.	Mynediad i Geffylau, Twristiaeth
Chris Rankin	26/02/15	Amh.	Mynediad i Gerbydau / Marchogwyr, Perchennog Tir
Keith Morgan	26/02/15	Amh.	Cyngor Cymuned Lleol, Ffermio
Glyn Evans	26/02/15	Amh.	Ffermio
Eric Davies	26/02/15	Amh.	Ffermio
David Stacey	26/02/15	Amh.	Beicio, Rheoli Cefn Gwlad, Amgylchedd Amaethyddol
Becky Chunisingh	21/05/15	Amh.	
Jane Evans	19/11/15	Amh.	Cymdeithas Geffylau Prydain
Richard Leggett	19/11/15	Amh.	Cerddwyr Caerfyrddin

Fforwm Mynediad Lleol Sir Gaerfyrddin
Adroddiad Blynnyddol 2015

Geoffrey Williams	19/11/15	Amh.	Cerdded
-------------------	----------	------	---------

Mynychodd Aelodau'r Fforwm gyfarfodydd canlynol y Fforwm yn 2015:

Enw	26/02/15	21/05/15	27/08/15	19/11/15
Mark Hadley (Cadeirydd)	√	√	√	√
Karen Burch (Is-gadeirydd)	√	Ymddiheuriad au	√	√
Jonathan Tudor (Ysgrifennydd)	√	√	√	√
Alan Warner (Aelod a Benodwyd gan y Cyngor)	Ymddiheuriad au	Ymddiheuriad au	Ymddiheuriad au	Ymddiheuriad au
Edward Percy	Ymddiheuriad au	Ymddiheuriad au	Ymddiheuriad au	X
Caroline Evans	Ymddiheuriad au	√	Ymddiheuriad au	√
Eric Jones	√	X	X	X
Jillie Gardiner	Ymddiheuriad au	√	√	√
Chris Rankin	√	√	√	Ymddiheuriad au
Keith Morgan	Ymddiheuriad au	√	√	Ymddiheuriad au
Glyn Evans	√	√	X	√
Eric Davies	Ymddiheuriad au	√	Ymddiheuriad au	Ymddiheuriad au
David Stacey	√	√	X	√
Becky Chunisingh	Amh.	√	Ymddiheuriad au	X
Jane Evans	Amh.	Amh.	Amh.	√
Richard Leggett	Amh.	Amh.	Amh.	Ymddiheuriad au
Geoffrey Williams	Amh.	Amh.	Amh.	√

Allwedd

√

Ymddiheuriadau

X

Mynychwyd y cyfarfod

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb

Ni fynychwyd y cyfarfod ac ni dderbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb

Fforwm Mynediad Lleol Sir Gaerfyrddin
Adroddiad Blynyddol 2015

Amh

Person heb fod yn aelod o'r Fforwm yn y cyfarfod hwn

Mae nifer o ymgynghorwyr wedi mynychu cyfarfodydd y Fforwm drwy gydol y flwyddyn fel y dangosir yn y tabl isod.

Enw	Sefydliad	Cyfarfodydd a fynychwyd
Jane Tibbott	Llywodraeth Cymru	26/02/15
Phil Stone	Cyfoeth Naturiol Cymru	26/02/15, 27/08/15, 19/11/15
Geoffrey Williams	Cerddwyr Caerfyrddin	26/02/15, 21/05/15, 27/08/15
Jason Lawday	Cynorthwydd Mynediad i Gefn Gwlad CSC	26/02/15
Michael Roberts	Gorfodi Materion Amgylcheddol CSC	21/05/15
Alan Evans	Adran Gyfreithiol CSC	21/05/15
Y Cynghorydd Deryk Cundy	Cadeirydd Pwyllgor Craffu -Cymunedau CSC	19/11/15

Atodiad 4

Rhestr Ddosbarthu Adroddiad Blynyddol y Fforwm

Gwefan CSC
Llyfrgelloedd CSC
Canolfannau Gofal Cwsmeriaid CSC
Cynghorau Cymuned
Aelodau CSC
Prif Weithredwr a Chyfarwyddwyr CSC
Cymdeithas Twristiaeth Sir Gâr
Cymdeithas y Cerddwyr Ceredigion
Cymdeithas y Cerddwyr Penfro
Cymdeithas y Cerddwyr Llanelli
Cymdeithas y Cerddwyr Dinefwr
Cymdeithas y Cerddwyr Gaerfyrddin a'r Cylch
Cymdeithas y Cerddwyr Llanbedr Pont Steffan
Marchogion Sir Gaerfyrddin
Cymdeithas Geffylau Prydain
Cymdeithas y Lonydd Gwyrdd
Treadlightly
Trail Riders Fellowship
Welsh Trail Riders Association
Auto Cycle Union
British Motorcyclists Association
Sustrans Cymru
Cyfoeth Naturiol Cymru
Undeb Amaethwyr Cymru
Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr
Fforymau Mynediad Lleol Awdurdodau Cyfagos
Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
Cymdeithas Mannau Agored
Ymddiriedolaeth Cilffyrdd a Llwybrau Ceffylau
Cymdeithas Yrru Prydain
Cycle Touring Club (Clwb Teithiau i Feicwyr)
LARA (Cymdeithas Hamdden a Mynediad i Dir)

Atodiad 5

Rhagor o Ddeunydd Darllen

Adroddiadau Blynyddol y Fforwm

Mae'n ofynnol yn ôl statud i bob awdurdod penodi lunio adroddiadau blynyddol. Gellir cael copi ohonynt gan Ysgrifennydd y Fforwm perthnasol. Mae agendâu, cofnodion a phapurau eraill ar gyfer cyfarfod unigol y Fforwm hefyd ar gael: <http://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/preswylwyr/hamdden-a-gweithgareddau/hawliau-tramwy-cyhoeddus/fforwm-mynediad-lleol/#.V2kLVdL2b1I>

Deddf y Llywodraeth

Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000; The Stationery Office Ltd (2000).

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Rheoliadau Mynediad i Gefn Gwlad (Fforymau Mynediad Lleol) (Cymru) 2001;
The Stationery Office Limited (2002).

Cyfoeth Naturiol Cymru

Cyfarwyddyd ar gyfer Fforwm Mynediad Lleol 1: Sefydlu Fforymau Mynediad Lleol – Cyngor a Chyfarwyddyd Arferion Da (2002).

Cyfarwyddyd ar gyfer Fforwm Mynediad Lleol 2: Swyddogaeth, Dyletswyddau a Phwrpas Fforymau Mynediad Lleol (2002)

Atodiad 6

Geirfa

Mae'r rhestr isod yn dangos y diffiniadau llawn ar gyfer yr acronymau a ddefnyddiwyd drwy gydol yr adroddiad blynyddol hwn:

Y Fforwm	Fforwm Mynediad Lleol Sir Gaerfyrddin
CSC	Cyngor Sir Caerfyrddin
CNC	Cyfoeth Naturiol Cymru
Y Cynllun	Cynllun Gwella Hawliau Tramwy